



Coeden
Ddarllen
Rhyngolchen

Antur y Llong Danfor




Roderick Hunt
Alex Brychta



Roedd Wilff a Wilma wedi dod i chwarae i dŷ
Cad a Dids. Roedd Wilff yn cael ei ben-blwydd.

“Pen-blwydd hapus, Wilff,” meddai Cad a Dids.
Cafodd gerdyn mawr ganddynt.



Roedd gan Wilff focs mawr.

“Dyma fy anrheg pen-blwydd,” meddai.

Edrychodd pawb i mewn i’r bocs.

“Beth ydy o?” gofynnodd Dids.

“Mae’n edrych fel llong danfor,” meddai Cad.



“Math o long danfor ydy hi,” meddai Wilff.

“Mae’n archwilio gwely’r môr.”

“Ydy wir,” meddai Wilma. “Mae hi’n mynd i waelod y môr.”

“Am anrheg ardderchog!” meddai Cad.




Roedd y llong danfor yn edrych fel car. Roedd ganddi ffenestri mawr ac roedd goleuadau arni. Goleuodd Wilff y goleuadau.

“Mae hi’n ardderchog,” meddai Dids.



Edrychodd Cad ar yr allwedd hud. Yn sydyn, dechreuodd ddisgleirio. Dyma ddechrau antur newydd.

“Tybed i ble’r aiff yr allwedd â ni,” meddai Wilff.



Aeth yr hud â'r plant at y môr. Roedd llawer o gychod yno. Pwyntiodd Wilma at long danfor felen.

“Edrychwch ar honna,” meddai. “Mae'n edrych yn union fel llong danfor Wilff!”

Aeth y plant i daflu cipolwg ar y llong danfor.

“Hoffwn edrych y tu mewn iddi,” meddai

Dids.

Y funud honno, agorodd hatsh led y pen a daeth dyn i'r golwg.




Syllodd y dyn arnynt.

“Helo!” meddai. “Proffesor Penbleth ydw i!”

“Sut ydych chi?” meddai Wilff.


“Fy nghriw newydd ydych chi?” meddai Proffesor Penbleth. “Rydych chi’n edrych yn ifanc braidd.”



“Na, nid y ni ydy’r criw newydd,” gwaeddodd Wilff. “Sut ydych chi?”


Ond doedd Proffesor Penbleth ddim yn clywed yn iawn. Roedd braidd yn ddryslyd.

“Wedi dod i fy helpu i?” meddai.



“Gwych! Dewch i mewn,” meddai'r Proffesor.
“Beth ydy'ch enwau?”

“Cad ydw i,” meddai Cad, “a dyma Dids.
Dyma Wilff, a Wilma ydy hon.”



“Llong? Nid llong ydy hon,” meddai'r
Proffesor. “Peiriant plymio ydy o.”

“Rydyn ni'n gwybod hynny,” meddai Wilff.


“Dydyn ni erioed wedi bod mewn un,”
meddai Wilma, “ac nid y ni ydy'r criw caban!”



“Wedi hedfan?” meddai Proffesor Penbleth.
“Ond does dim awyren i’w gweld yn unman.
Pawb yn barod?”
Gwenodd pawb a dringo i mewn i’r llong danfor.




Caeodd Proffesor Penbleth yr hatsh.
“Does yna fawr o le,” meddai Wilma.
“Na,” meddai Cad. “Rydw i’n gobeithio ei
bod yn ddiogel.”
“Ydy wir, mae’n swel,” meddai’r Proffesor.



Taniodd Proffesor Penbleth yr injan.
“Amser plymio,” meddai.
Aeth y llong danfor o dan y dŵr.
“Glwg! Glwg! Glwg!” mwmiodd.
Edrychodd pawb drwy’r ffenest.


Gwelsant bysgod ymhob man.
“Mae’n wych,” meddai Dids. “Mae bod o dan
y môr yn benignamp.”
“Does dim angen lamp!” meddai Proffesor
Penbleth. “Edrychwch drwy’r ffenest.”



“Dewch yn eich blaenau, criw!” meddai Proffesor Penbleth. “Mae’n amser gweithio. Pwysa’r botwm, Cad. Gwthia’r carn, Wilff. Tyn y lifer, Dids.”

“Ond nid y ni ydy’r criw!” bloeddiodd Cad. “Dydyn ni ddim yn gwybod...”

“Ydi, mae’r môr yn llawn pysgod,” meddai Proffesor Penbleth. “Does dim amser i sgwrsio. Mae gormod i’w wneud.”



Plymiodd y llong danfor. Aeth yn ddyfnach a dyfnach.


“Gllwg! Gllwg! Gllwg!” mwmiodd.

“I ble’r ydyn ni’n mynd?” gwaeddodd Dids.

“Ydyn ni am blymio’n ddwfn?”

“Na, allwch chi ddim cysgu’n drwm,” meddai Proffesor Penbleth. “Y chi yw’r criw! Mae’n rhaid i chi aros yn effro! Rydym am blymio’n ddwfn.”

“Mae arna i ofn,” meddai Wilma.



Aeth y llong danfor yn ddyfnach ac yn ddyfnach.

“Glwg! Glwg! Glwg!” mwmiodd.

Edrychodd pawb drwy’r ffenest.


“Siarc! Cymerwch bwyll!” meddai Wilma.

“Ydi, *mae* hi bron yn dywyll!” meddai’r Proffesor.



Aeth y llong danfor yn ddyfnach byth.
Roedd Proffesor Penbleth yn gyffrous. Roedd hi’n tywyllu.

“Mae’n mynd yn dywyll iawn,” meddai Cad.
“Goleuwch y goleuadau, Proffesor.”



Gwthiodd y Proffesor y swits.

“Drapia! Dydi’r goleuadau ddim yn gweithio,” meddai.

Edrychodd Cad drwy’r ffenest.

“O na! Help! Proffesor Penbleth! Rydw i’n gweld creigiau,” gwaeddodd hi.

“Na, mae gen i sanau,” meddai’r Proffesor.
“Ble mae’r ffiws?” Dechreuodd chwilota am y bocs tŵls.

“Gwyliwch!” bloeddiodd Dids. “Rydym am gael damwain!”




Pwysodd Proffesor Penbleth fotwm a thynnodd lifer. Doedd dim damwain. Aethant heibio'r creigiau yn ddiogel.

“Ffiw! Dyna agos,” meddai Wilma.


Roedd ogof o’u blaenau. Roedd y llong danfor yn anelu ati.

“Arafwch, Proffesor,” gwaeddodd Wilff.
“Rydym yn anelu am yr ogof yn y creigiau mawr.”




“Ydy, dyma fo yn y bocs ar y llawr,”
meddai'r Proffesor.
Dangosodd y ffiws.

“Proffesor, arafwch!” bloeddiodd Wilff.
“Rydym yn mynd i mewn i'r ogof.”



“Wel, pam na fuasech chi'n dweud?”
gofynnodd Proffesor Penbleth. “Byddai'n well i
ni arafu.”

Tynnodd lifer ac arafodd y llong danfor mewn
pryd.



Aeth y llong danfor i mewn i'r ogof.
Gosododd Proffesor Penbleth y ffiws newydd.
Goleuodd y goleuadau. Roedd yr ogof yn llachar
ac yn ddisglair. Roedd diamwntau ar hyd y
waliau.

“Diamwntau! Rydw i'n gyfoethog!” meddai'r
Proffesor.

“Ond allwch chi ddim mynd atyn nhw,”
meddai Cad.


“O drapia!” meddai Proffesor Penbleth. Yn
sydyn, crynodd waliau'r ogof.



Disgynnodd creigiau a cherrig o'u cwmpas.
"Mae'n rhaid i ni fynd allan," meddai'r
Proffesor. "Ar unwaith."
"O na! Mae hi ar ben arnon ni!" meddai
Wilma.



Daeth y llong danfor allan mewn pryd.
"Ffiw! Dyna agos!" meddai Cad.
"Mae'n ddrwg gennym ni na chawsoch y
diamwntau, Proffesor," meddai Dids.
Y funud honno, dechreuodd yr allwedd
ddisgleirio.



Aeth yr hud â nhw yn ôl i ystafell Cad.

“Am antur wych,” meddai Dids.

“Mae’n rhaid i ni fynd adref am de,” meddai
Wilma.

“Beth?” chwarddodd Wilff. “Ydy, mae’r môr yn
goblyn o le!”

Antur y Llong Danfor

Mae anrheg pen-blwydd Wilff yn sbarduno antur gyffrous o dan y môr.



Cam 6 Rhagor o Storiâu B

Cynllun Arbennig Dad
Ynys y Drych
Paid â Bod yn Wirion

Cam 7 Rhagor o Storiâu B

Hanes y Patrwm Helyg
Y Peiriant Jôcs
Antur y Llong Danfor

Addasiad Cymraeg gan
Llinos Griffin

